1. Mae'r unigolyn yn cyfyngu'n barhaus ar ei gymeriant ynni, gan arwain at bwysau corff isel iawn (o gymharu â'r hyn y gellid ei ddisgwyl o ystyried oedran, trywydd datblygiad rhyw, ac iechyd corfforol)
2. Naill ai mae'r unigolyn yn ofni'n fawr y bydd yn ennill pwysau neu'n mynd yn dew, neu mae'n arddangos ymddygiad parhaus sy'n ei atal rhag ennill pwysau
3. Mae gan yr unigolyn anhawster o ran y modd mae'n ystyried ei bwysau / siâp ei gorff, mae ei bwysau a siâp ei gorff yn dylanwadu'n ormodol ar ei hunanwerthusiad, neu mae'n methu â chydabod pa mor ddifrifol yw ei bwysau corff isel yn gyson

Is-deipiau:

Math cyfyngol

Math gorfwyta mewn pyliau/carthu

## BWLIMIA

Mae'r diagnosis yn seiliedig ar y canlynol:

1. Pyliau rheolaidd o orfwyta h.y. y ddwy elfen ganlynol:  
O fewn cyfnod penodol (e.e. o fewn cyfnod o ddwy awr), mae'n bwyta swm o fwyd sydd yn bendant yn fwy nag y byddai'r rhan fwyaf o bobl yn ei fwyta yn ystod cyfnod tebyg ac mewn amgylchiadau tebyg  
Mae'n teimlo nad oes ganddo reolaeth dros y ffaith ei fod yn bwyta gormod yn ystod y pwl h.y. mae'n teimlo na all roi'r gorau i fwyta, na rheoli beth na faint mae'n ei fwyta
2. Ymddygiad cydbwysu rheolaidd i'w atal rhag ennill pwysau e.e. gwneud iddo'i hun chwydu, camddefnyddio carthyddion, diwretigion neu feddyginiaethau eraill, ymprydio, teimlo gorfodaeth i wneud ymarfer corff, peidio â chymryd inswlin
3. Mae'r gorfwyta mewn pyliau a'r ymddygiadau cydbwysu hyn yn digwydd o leiaf unwaith yr wythnos am gyfnod o 3 mis (ar gyfartaledd)
4. Mae ei bwysau a siâp ei gorff yn dylanwadu'n ormodol ar ei hunanwerthusiad
5. Mae ei BMI yn yr ystod iach neu uwch

## ANHWYLDER GORFWYTA MEWN PYLIAU

Rhaid i'r unigolyn arddangos y canlynol:

1. Pyliau rheolaidd o orfwyta
2. Mae'r pyliau o orfwyta'n cynnwys 3 elfen neu fwy o blith y canlynol:
  - Bwyta'n llawer cyflymach nag arfer
  - Bwyta hyd nes y bydd yn teimlo'n anghyfforddus o lawn
  - Bwyta llawer o fwyd pan na fydd yn teimlo'n llwglyd
  - Bwyta ar ei ben ei hun gan ei fod yn cywilyddio ei fod yn bwyta cymaint
  - Teimlo ffieidd-dod, iselder neu euogrwydd mawr wedyn
3. Gofid ynglŷn â gorfwyta mewn pyliau
4. Mae'r gorfwyta'n digwydd o leiaf unwaith yr wythnos am gyfnod o 3 mis ar gyfartaledd
5. NID yw'n arddangos ymddygiadau cydbwysu yn rheolaidd

**Sylwer:** Mae Anhwylder Gorfwyta mewn Pyliau (BED) yn llawer llai cyffredin na BWYTA GORMOD, ond mae'n llawer mwy difrifol na bwyta gormod. Mae Anhwylder Gorfwyta mewn Pyliau'n esgor ar fwy o ofid ynglŷn â'r ymddygiad bwyta, ac fel arfer ceir problemau seicolegol sy'n cyd-ddigwydd.

## ARFID (Anhwylder osgoi bwyta/cyfyngu ar faint rydych chi'n ei fwyta)

A) Methu diwallu anghenion o ran maeth a/neu egni, megis:

Colli llawer o bwysau

Diffyg maeth

Dibyniaeth ar atchwanegiadau maeth a gymerir trwy'r geg

Amharu ar weithrediad seicogymdeithasol

B) Nid yw'r anawsterau'n deillio o ddiffyg bwyd sydd ar gael nac unrhyw arferion diwylliannol

C) Ni cheir tystiolaeth o unrhyw aflonyddu o ran y modd mae'n ystyried ei bwysau neu siâp ei gorff

D) Nid cyflwr meddygol neu anhwylder meddwl arall sydd wrth wraidd y broblem fwyta

## Dulliau 'answyddogol' o ddiagnosio ymgyflwyniadau penodol

Caiff y termau hyn eu defnyddio'n gyffredin yn y gwasanaethau a chan y cyhoedd. Nid ydynt yn gategorïau diagnostig swyddogol, ond maent yn disgrifio gwahanol fathau o anhwylderau bwyta a gefnogir gan wasanaethau anhwylderau bwyta.

**Orthorecsia:** Osgoi bwydydd y credir nad ydynt yn iach, gan arwain at ddewis cyfyngedig iawn o fwydydd ac at bwysau isel a/neu ddiffyg maethiad

**Bigorecsia:** Canolbwyntio mewn modd obsesiynol ar gynyddu màs y cyhyrau a gweithgareddau a fydd yn arwain at fagu cyhyrau

**T1DE:** Pobl sydd â diabetes math 1 yn peidio â chymryd inswlin, fel ffordd o ostwng/rheoli eu pwysau

# Asesiad Risg Meddygol

Fframwaith Asesu Risg ar gyfer Pobl Ifanc ag Anhwylderau Bwyta  
(yn seiliedig ar ganllawiau 'Junior MARSIPAN')

	<b>COCH (Risg Uchel)</b>	<b>OREN (Rhybudd – Pryder Uchel)</b>	<b>GWYRDD (Risg Gymedrol)</b>	<b>GLAS (Risg Isel)</b>
BMI a Phwysau	Canran BMI canolrif <70% (yn fras, islaw canradd BMI 0.4 <sup>y<sup>dd</sup></sup> )  Wedi colli 1kg o bwysau neu fwy yr wythnos yn ddiweddar am bythefnos yn olynol	Canran BMI canolrif 70-80% (yn fras, rhwng canradd BMI 2 <sup>il</sup> a 0.4 <sup>y<sup>dd</sup></sup> )  Wedi colli 500-999kg o bwysau yr wythnos yn ddiweddar am bythefnos yn olynol	Canran BMI canolrif 80-85% (yn fras, canradd BMI 9 <sup>fed</sup> -2 <sup>il</sup> )  Wedi colli hyd at 500g o bwysau yr wythnos yn ddiweddar am bythefnos yn olynol	Canran BMI canolrif >85% (yn fras, uwchlaw canradd BMI 9 <sup>fed</sup> )  Heb golli pwysau yn ystod y pythefnos diwethaf
lechyd cardiofasgwlaidd	Cyflymder y galon (pan yn effro) <40 bpm <sup>a</sup>  Hanes o lesmair rheolaidd; newidiadau orthostatig sylweddol (gostyngiad o 20mmHg neu fwy mewn pwysedd gwaed systolig, neu islaw canraddau 0.4-2 ar gyfer yr oedran, neu gynnydd o >30 bpm yng nghyflymder y galon)	Cyflymder y galon (pan yn effro) 40-50 bpm  Pwysedd gwaed wrth eistedd: systolig canradd <0.4 (84-98mmHg yn dibynnu ar oedran a rhywedd <sup>b</sup> ); diastolig canradd <0.4 (35-40mmHg yn dibynnu ar oedran a rhywedd <sup>a</sup> )  Llesmair achlysurol; newidiadau cardiofasgwlaidd orthostatig cymedrol (gostyngiad o 15mmHg neu fwy mewn pwysedd gwaed systolig, neu ostyngiad o 10mmHg neu fwy mewn pwysedd gwaed diastolig o fewn 3 munud i sefyll, neu gynnydd o hyd at 30bpm yng nghyflymder y galon)	Cyflymder y galon (pan yn effro) 50-60bpm  Pwysedd gwaed wrth eistedd: systolig canradd <2 (98-105mmHg yn dibynnu ar oedran a rhywedd <sup>a</sup> ); diastolig canradd <2 (40-45mmHg yn dibynnu ar oedran a rhywedd <sup>a</sup> )  Symptomau cyn llesmair, ond newidiadau cardiofasgwlaidd orthostatig normal	Cyflymder y galon (pan yn effro) >60 bpm  Mae'r pwysedd gwaed wrth eistedd yn normal o ystyried yr oedran a'r rhywedd – gweler y siartiau canraddau <sup>a</sup>  Newidiadau cardiofasgwlaidd orthostatig normal



	Mae rhythm y galon yn afreolaidd (heb gynnwys arhythmia sinws)		Y traed a'r dwylo'n oer; angen amser estynedig i ail-lenwi capilarïau'r traed a'r dwylo (amser arferol ar gyfer llenwi'r capilarïau canolog)	
Annormaleddau yn yr ECG	QTc>460ms (merched) neu 400ms (bechgyn) gyda thystiolaeth o fradyarhythmia neu dacyarhythmia (heb gynnwys bradycardia sinws ac arhythmia sinws); tystiolaeth ECG neu annormaledd biocemegol	QTc>460ms (merched) neu 400ms (bechgyn)	QTc<460ms (merched) neu 400ms (bechgyn) a chymryd meddyginiaeth y gwyddys ei bod yn ymestyn yr ysbaid QTc, hanes teuluol o QTc estynedig neu fyddardod synhwyradd-niwrol	QTc<460ms (merched) neu 400ms (bechgyn)
Statws hydradu	Gwrthod hylif Dadhydradiad difrifol (10%): llai o wrin, ceg sych, llai o chwydd-dyndra yn y croen, llygaid wedi suddo yn y pen, anadlu cyflym, tacycardia <sup>c</sup>	Cyfyngu'n fawr ar hylif Dadhydradiad cymedrol (5-10%): llai o wrin, ceg sych, chwydd-dyndra normal yn y croen, peth anadlu cyflym, peth tacycardia <sup>c</sup> , oedema yn y traed a'r dwylo	Cyfyngu ar hylif Rhywfaint o ddadhydradiad (<5%): efallai y bydd y geg yn sych neu efallai na fydd yn dioddef o ddadhydradiad mewn termau clinigol, ond ceir pryderon ynglŷn â risg dadhydradiad gyda chydbwysedd hylif negyddol	Nid yw'n dioddef o ddadhydradiad mewn termau clinigol
Tymheredd	<35.5°C yn y glust neu 35.0°C o dan y gesail	<36°C		

Annormaleddau biocemegol	hypophosphataemia, hypocalaemia, hypoalbuminaemia, hypoglycaemia, hyponatraemia, hypocalcaemia	hypophosphataemia, hypocalaemia, hyponatraemia, hypocalcaemia		
Ymddygiadau bwyta di-drefn	Gwrthod bwyd yn daer neu fwyta oddeutu 400-600kcal y dydd	Cyfyngu'n fawr ar fwyd (llai na 50% y cymeriant angenrheidiol), chwydu, carthu trwy ddefnyddio carthyddion	Cyfyngu ar fwyd ar lefel gymedrol, gorfwyta mewn pyliau	
Ymgysylltu â'r cynllun rheoli	Ymddygiad treisgar pan fo'r rhieni'n ceisio cyfyngu ar ei ymddygiad neu'n ei annog i gymryd bwyd/diod, trais o du'r rhieni mewn perthynas â bwydo (taro, bwydo drwy orfodaeth)	Dealltwriaeth wael o broblemau bwyta, dim cymhelliant i fynd i'r afael â phroblemau bwyta, gwrthod y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ennill pwysau, ni all y rhieni weithredu'r cyngor a gawsant gan ddarparwyr gofaliach mewn perthynas â chynlluniau prydau bwyd	Peth dealltwriaeth o broblemau bwyta, peth cymhelliant i fynd i'r afael â phroblemau bwyta, deuliaeth teimlad o ran y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ennill pwysau, ond nid yw'n eu gwrthod yn weithredol	Peth dealltwriaeth o broblemau bwyta, cymhelliant i fynd i'r afael â phroblemau bwyta, nid yw ei ymddygiad yn dangos deuliaeth teimlad o ran y newidiadau sy'n angenrheidiol er mwyn ennill pwysau
Gweithgarwch ac ymarfer corff	Lefelau uchel o ymarfer corff direolaeth yng nghyd-destun diffyg maethiad (>2 awr y dydd)	Lefel gymedrol o ymarfer corff direolaeth yng nghyd-destun diffyg maethiad (>1 awr y dydd)	Lefelau isel o ymarfer corff direolaeth yng nghyd-destun diffyg maethiad (<1 awr y dydd)	Dim ymarfer corff direolaeth
Hunan-niweidio a hunanladdiad	Hunanwenwyno, syniadau hunanladdol gyda risg gymedrol-uchel o gyflawni hunanladdiad	Hunandorri neu ymddygiadau tebyg, syniadau hunanladdol gyda risg isel o gyflawni hunanladdiad		

Cyflyrau iechyd meddwl eraill sydd wedi'u diagnosio		Cyd-ddiagnosis seiciatrig pwysig arall e.e. OCD, seicosis, iselder ysbryd		
Gwendid cyhyrol – Prawf SUSS				
Codi ar ei eistedd o orwedd ar wastad ei gefn	Methu codi ar ei eistedd o orwedd ar wastad ei gefn (sgôr o 0)	Methu codi ar ei eistedd heb ddefnyddio'i freichiau (sgôr o 1)	Methu codi ar ei eistedd heb anhawster sylweddol (sgôr o 2)	Mae'n gallu codi ar ei eistedd o orwedd ar wastad ei gefn heb unrhyw anhawster (sgôr o 3)
Codi ar ei draed o'i gwrcwd	Methu codi o gwbl o'i gwrcwd (sgôr o 0)	Methu codi heb ddefnyddio'i freichiau (sgôr o 1)	Methu codi heb anhawster sylweddol (sgôr o 2)	Mae'n gallu codi ar ei draed o'i gwrcwd heb unrhyw anhawster (sgôr o 3)
Arall	Dryswch a deliriwm, pancreatitis aciwt, rhwyg yn y stumog neu'r oesoffagws	Rhwyg Mallory-Weiss, adlif gastro-oesoffagaidd neu gastritis, briwiau pwyso	Anhawster rhoi sylw i bethau ac anhawster canolbwytio	

BMI - Mynegai Màs y Corff; bpm – curiad y munud; ECG – electrocardiogram;

OCD - anhwylder gorfodaeth obsesiynol; SUSS - Eistedd, Cyrcydu, Sefyll

- Mae cleifion sydd â chyflymder calon amhriodol o uchel ar gyfer eu pwysau isel yn wynebu risg uwch fyth (hypofolemia). Efallai hefyd y bydd cyflymder y galon yn cael ei gynyddu'n fwriadol trwy yfed gormod o gaffein mewn coffi neu ddiodydd eraill.
- Jackson, L. V., Thalange, N. K. & Cole, T. J. (2007) Blood pressure centiles for Great Britain. Archives of Disease in Childhood, 92, 298-303.
- Neu gyflymder calon normal amhriodol mewn person ifanc sydd o dan ei bwysau.

**Darllenwch y ddogfen “Junior MARSIPAN: Management of Really Sick Patients under 18 with Anorexia Nervosa” (a gyhoeddwyd yn 2012 gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion) i gael canllawiau llawn ar reoli plant a phobl ifanc ag anorecsia.**

## Canllawiau Rheoli Risg SLAM (*South London and Maudsley*) ar gyfer Anhwylderau Bwyta mewn Oedolion

SYSTEM	Prawf neu Archwiliad	Pryder	Rhybudd
Maethiad	BMI	<14	<12
	Y pwysau a gollir bob wythnos	>0.5kg	>1.0kg
	Dirywiad yn y croen	>0.1cm	>0.2cm
	Pwrpwra		+
Cylchrediad	Pwysedd gwaed systolig	<90	<80
	Pwysedd gwaed diastolig	<70	<60
	Gostyngiad yn y pwysedd gwaed ar ôl codi (eistedd – sefyll)	>10	>20
	Cyflymder y pwls	<50	<40
	Dwylo a thraed		Glas tywyll oer
Cyhyrsgerbydol (prawf cyrcydu a phrawf codi ar ei eistedd)	Methu codi heb ddefnyddio'i freichiau i gadw cydbwysedd	+	
	Methu codi heb ddefnyddio'i freichiau i gael nerth		+
	Methu codi ar ei eistedd heb ddefnyddio'i freichiau i gael nerth	+	
	Methu codi ar ei eistedd o gwbl		+
Tymheredd		<35C <98.0F	<34.5 <97.0F
Mêr esgyrn	WCC	<4.0	<2
	Nifer y niwtroffilau	<1.5	<1.0
	Hb	<11	<9.0
	Gostyngiad aciwt mewn Hb (MCV ac MCH yn uwch – dim risg aciwt)		+
	Platennau	<130	<110
Y cydbwysedd o ran halen / dŵr	K+	<3.5	<3.0
	Na+	<135	<130
	Mg++	<0.5-0.7	<0.5
	PO4--	<0.5-0.8	<0.5
	Wrea	>7	>10
Yr afu	Bilirwbin	>20	>40
	Alcpase	>110	>200
	AsT	>40	>80
	ALT	>45	>90
	GGT	>45	>90
Maethiad	Albwmin	<35	<32
	Cinas Creatinin	>170	>250
	Glwcos	<3.5	<2.5
Diagnosis gwahaniaethol	TFT		
	ESR		
ECG	Cyflymder y pwls	<50	<40
	Ysbeidiau QTC wedi'u cywiro		>450 msec
	Arythmia		+

**Tabl 1.**

Canllawiau NICE (2004)

A guide for Medical Risk Assessment for Eating Disorders, Treasure SLAM (2004)

**Mae Risg Feddygol yn deillio o gyfuniad o ymddygiadau cyfyngol (bwyd, ac mewn ambell achos, hylif) ac ymddygiadau cydbwysu:**

- Gormod o ymarfer corff gyda phwysau isel
- Gwaed yn y chŵyd
- Ddim yn yfed digon o hylif mewn cyfuniad â bwyta'n wael
- Colli pwysau'n gyflym

**Mae BMI neu Fynegai Mâs y Corff (pwysau/taldra mewn metrau sgwâr) yn ffordd o fesur risg feddygol mewn perthynas ag anorecsia nerfosa. Fel un dull o fesur ar ei ben ei hun, mae ganddo'i gyfyngiadau.**

- Y posibilrwydd y bydd yr unigolyn yn twyllo (yfed llawer o ddŵr)
- Mae'n llai dibynadwy pan fo'r newid yn y pwysau'n digwydd yn gyflym
- Mae'n llai dibynadwy yn achos unigolion byr iawn neu dal iawn
- Risg uwch ar gyfer pob ystod BMI ymhlith dynion (talach)
- Mae BMI plant yn is\*
- Mae'n llai dibynadwy yn achos bwlimia
- Mae'n llai dibynadwy os cyfyngir ar hylif
- Mae'n llai dibynadwy os oes yna gydafiachedd corfforol
- Nid yw BMI yn hollbwysig o ran y risgiau sy'n gysylltiedig â chydbwysedd electrolytau a hylif

\*Mewn plant a phobl ifanc, y torbwynt ar gyfer BMI mewn perthynas â diagnosis yw pwysau a thaldra islaw ail ganradd BMI. Mae modd cael siartiau canraddau ar y we ar gyfer UDA (mae'r drydedd ganradd wedi'i darlunio). [www.cdc.gov/growthcharts/](http://www.cdc.gov/growthcharts/)

Argymhellir y canlynol ar gyfer asesiad risg cyflym. Dylid ailadrodd y broses yn fynych, fel bo'r angen:

- BMI
- Pwysedd gwaed a chyflymder y pwls
- Cryfder y cyhyrau (gweler isod)
- Yn achos y rhai sy'n wynebu risg uchel, dylid archwilio'u croen a chymryd eu tymheredd
- Archwiliad corfforol llawn gan chwilio, e.e. am haint (sylwer: gall y tymheredd fod yn normal) ac arwyddion o ddiffyg maeth.

**Profion ar gyfer cryfder y cyhyrau: (gweler tabl 1 ar gyfer y dull sgorio)**

Prawf cyrcydu a sefyll

Gofynnir i'r claf gyrcydu ac yna gofynnir iddo sefyll ar ei draed heb ddefnyddio'i freichiau i gael nerth, os oes modd

Prawf codi ar ei eistedd

Bydd y claf yn gorwedd ar wastad ei gefn ar arwyneb caled, fel y llawr, a rhaid iddo godi ar ei eistedd heb ddefnyddio'i ddwylo, os oes modd

## Archwiliadau

Bydd angen archwilio'r cyfrif gwaed llawn a'r elfennau cemegol (FBC, ESR, U&E, Cr, CK, Gluc, LFTs) yn aml:

- os yw'r claf mewn categori risg uwch ar sail asesiad blaenorol, neu
- os oes ganddo BMI <15, neu
- os yw ei BMI yn llai dibynadwy oherwydd y nodweddion a nodir uchod, neu
- os oes ganddo hanes o garthu.

Argymhellir ECG os yw ei BMI <14 ac os oes cyffuriau a all effeithio ar yr ysbaid QT wedi cael eu rhagnodi.

Darllenwch y ddogfen "MARSIPAN: Management of Really Sick Patients with Anorexia Nervosa, 2<sup>nd</sup> ed" (a gyhoeddwyd yn 2014 gan Golegau Brenhinol y Seiciatryddion, y Meddygon a'r Patholegwyr) i gael canllawiau llawn ar reoli oedolion ag anorecsia.

## Pa Wybodaeth y Dylid ei Chynnwys Wrth Atgyfeirio

Yn yr wybodaeth a fydd yn ategu eich atgyfeiriad, cofiwch gynnwys y manylion canlynol:

- **Patrwm bwyta'r claf:** A yw'n cyfyngu ar faint o fwyd mae'n ei fwyta? (Os felly, sut? e.e. A yw'n osgoi mathau arbennig o fwydydd, neu'n cyfyngu ar ei gymeriant calorïau?) A yw'n gorfwyta mewn pyliau? A yw'n carthu (h.y. yn chwydu, yn cymryd carthyddion, yn teimlo gorfodaeth i wneud ymarfer corff, yn peidio â chymryd inswlin os oes ganddo diabetes), ac os felly, pa mor aml?
- **Dangosyddion risg corfforol:** Beth yw ei bwysau ar hyn o bryd? Sut mae ei bwysau wedi newid yn ystod y mis diwethaf? Os yw'r claf yn fenywaidd, a yw'n cael mislif yn rheolaidd? Beth yw canlyniadau'r profion gwaed perthnasol (cofiwch gynnwys HbA1C os oes gan y claf diabetes)?
- **Delwedd corff:** Sut mae'n teimlo ynglŷn â siâp ei gorff a'i bwysau ar hyn o bryd? A oes yna dystiolaeth ei fod yn canolbwyntio gormod ar siâp ei gorff neu ei fod yn anfodlon â siâp ei gorff (e.e. a yw'n pwysu'i hun yn aml a/neu'n edrych yn y drych yn aml, ymddygiadau eraill lle mae'n mynd ati i wirio'i gorff)?
- **Hanes o anawsterau bwyta:** Pryd dechreuodd y problemau bwyta? A ddigwyddodd rhywbeth ar y pryd a allai fod wedi sbarduno'r problemau hyn?
- **Amgylchiadau teuluol:** Beth yw ei sefyllfa deuluol/trefniadau byw? A yw'n cael cefnogaeth gan ei deulu? A yw'r teulu/cefnogwyr yn bryderus ynglŷn â'r claf?
- **Y cymhelliant i wella:** Beth mae'r claf yn ei geisio gan y gwasanaethau? A yw'n credu bod ganddo broblem/anhwylder bwyta? A yw wedi ceisio gwella'i batrwm bwyta? At beth mae'n anelu mewn perthynas â'i fwyta, ei bwysau a siâp ei gorff?

## Llwybrau Eich Bwrdd Iechyd Ar Gyfer Anhwylderau Bwyta (dylai'r gwasanaethau lenwi'r adran hon cyn dosbarthu'r ddogfen i'r meddygon teulu lleol)

Y tîm yn anfon atgyfeiriad ar gyfer plentyn o dan 18 oed  
(yn cynnwys rhif ffôn ar gyfer y tîm a sut i gyflwyno atgyfeiriad):

Y tîm yn anfon atgyfeiriad ar gyfer oedolyn dros 18 oed  
(yn cynnwys rhif ffôn ar gyfer y tîm a sut i gyflwyno atgyfeiriad):

Â phwy y dylid cysylltu i drafod plentyn o dan 18 oed sy'n wynebu risg uchel ac a all fod  
angen triniaeth yn syth:

Â phwy y dylid cysylltu i drafod oedolyn dros 18 oed sy'n wynebu risg uchel ac a all fod  
angen triniaeth yn syth:

### **Timau Pontio Anhwylderau Bwyta**

Mae gan bob Bwrdd Iechyd dîm pontio anhwylderau bwyta. Mae'r tîm hwn yn cynorthwyo pobl ifanc sydd ag anhwylderau bwyta, sydd ar fin cael eu pen-blwydd yn 18 oed ac sy'n debygol o fod angen triniaeth barhaus o dan y gwasanaethau i oedolion. Bydd y tîm pontio'n ymgysylltu â'r person ifanc, ei deulu, a'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gysylltiedig â'i ofal a'i driniaeth er mwyn gweld beth yw ei nodau a'i anghenion parhaus a chynllunio triniaeth a chymorth priodol. Os byddwch yn atgyfeirio person ifanc sydd ar fin cael ei ben-blwydd yn 18 oed, efallai y bydd yn cael ei atgyfeirio at y tîm pontio er mwyn cynllunio asesiad o dan y gwasanaethau i oedolion.

## Yr Hyn y Dylid Ei Wneud Ar Ôl Atgyfeirio

Ar ôl cwblhau'r atgyfeiriad, a thra bydd y claf/teulu yn aros am asesiad gan y gwasanaethau arbenigol, gwnewch y canlynol:


- Rhowch gopi o Atodiad y ddogfen hon i'r claf/teulu, gan eu hannog i'w ddarllen a defnyddio'r adnoddau sy'n berthnasol iddynt
- Trefnwch weld y claf yn wythnosol hyd nes y bydd ei asesiad gan y gwasanaethau arbenigol wedi'i gynnal, ewch ati i fonitro unrhyw newidiadau ynddo a rhowch wybod i'r gwasanaethau arbenigol am unrhyw newidiadau penodol
- Ewch ati i ymchwilio ymhellach i anhwylderau bwyta trwy ddefnyddio'r adnoddau a restrir yn yr atodiad

## Pethau I'w Gwneud A'u Hosgoi Wrth Gynorthwyo Rhywun Sydd ag Anhwylder Bwyta

- 1) Peidiwch â gwneud unrhyw sylw ynglŷn ag ymddangosiad na phwysau'r unigolyn. Ni waeth pa mor gadarnhaol neu galonogol y ceisiwch fod, fe fydd yr unigolyn yn dehongli'r hyn a ddywedwch fel "Rwyt ti'n dew!". Mae hi'n iawn ichi roi canmoliaeth benodol i'r unigolyn ynglŷn ag agweddau eraill ar ei ymddangosiad, e.e. ei wallt, ei ddillad, ei golur, neu rywbeth y mae'n dda am ei wneud etc.
- 2) Peidiwch â siarad am eich arferion bwyta eich hun nac arferion bwyta pobl eraill. Ni waeth pa mor dda yw eich bwriad, efallai y bydd clywed am arferion bwyta pobl eraill yn cryfhau awydd yr unigolyn i gystadlu a bwyta llai
- 3) Peidiwch â chael eich tynnu i drafodaethau'n ymwneud â phwysau, bwyd, siâp y corff etc. Pur anaml y bydd trafodaethau o'r fath yn ddefnyddiol, oherwydd gall y rhesymeg sydd wrth wraidd syniadau unigolion sy'n dioddef o anhwylder bwyta fod yn unochrog neu'n ystumiedig. Ceisiwch newid y pwnc a dywedwch wrth yr unigolyn eich bod yn osgoi'r trafodaethau hyn gydag ef, gan esbonio pam



# Camau Newid a Deuoliaeth Teimlad/Pryder Ynglŷn Â'r Driniaeth



## Deuoliaeth Teimlad

Mae'r camau adfer sy'n perthyn i anhwylderau bwyta yn dilyn y model Camau Newid sy'n debyg i fodolau caethiwed. Amcangyfrifir bod y rhan fwyaf o gleifion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau anhwylderau bwyta wedi cyrraedd y Cam Myfyrio, a'u bod felly yn ansicr pa un a ydynt yn teimlo'n barod i adfer, pa un a allant lwyddo i adfer, neu pa un a ydynt yn teimlo'r angen i adfer. Hyd yn oed mewn achosion o'r fath, dylid atgyfeirio cleifion sydd yn y Cam Myfyrio – a hyd yn oed gleifion sydd yn y Cam Cyn-fyfyrio – at wasanaethau arbenigol, oherwydd gall y gwasanaethau hynny gynnig cymorth ac ymyriadau iddynt hwy a'u teuluoedd – sef cymorth ac ymyriadau a fydd yn addas i'r cam maent wedi'i gyrraedd.

## Mynegi Emosiynau

Pan fyddant yn mynychu apwyntiadau ac yn trafod eu pryderon, eu hymddygiadau bwyta ac opsiynau ar gyfer eu triniaeth, bydd cleifion sydd wedi cyrraedd y Cam Cyn-fyfyrio neu'r Cam Myfyrio yn teimlo amrywiaeth eang o emosiynau. Maent yn debygol o fynegi pryder, ofn, euogrwydd, cywilydd a dicter, yn ogystal ag emosiynau eraill, ac mae'n bosibl y bydd yr emosiynau hyn yn rhai dwys. Mae hi'n bwysig ichi wrando arnynt a dilysu'r emosiynau hyn, gan esbonio eich bod yn deall pam maent yn teimlo felly gan barhau hefyd i gyflawni eich cyfrifoldebau clinigol mewn modd digynnwrf a llawn parch.

## Amheuaeth Glinigol

Oherwydd y ddeuoliaeth y gall pobl ag anhwylderau bwyta ei theimlo, gall fod yn anodd iddynt fod yn gwbl agored a gonest ynglŷn â natur a graddau eu hanawsterau. O'r herwydd, bydd angen ichi roi'r darnau tystiolaeth gyda'i gilydd ar sail yr wybodaeth y maent yn ei rhoi ichi, yr wybodaeth a gewch gan bobl sy'n agos atynt, yr ymddygiadau y sylwch arnynt a'r dangosyddion meddygol, a hynny er mwyn llunio barn glinigol ynglŷn â natur eu cyflwr a beth yn union yw eu hanghenion. Gan y byddwch, yn ôl pob tebyg, yn gweithio gyda gwybodaeth anghyflawn (ac anghyson yn aml), mae hi'n bwysig ichi arfer cryn dipyn o amheuaeth ynghylch a ydynt yn dioddef o anhwylder bwyta, a dylech eu hatgyfeirio ar gyfer asesiad arbenigol neu gysylltu â'ch gwasanaethau arbenigol lleol i'w trafod, hyd yn oed os nad ydych yn siŵr a oes ganddynt anhwylder bwyta. Bydd y gwasanaeth arbenigol yn fwy na pharod i'ch cynghori.

## Cefnogi Pobl Sydd Ag Anhwylder Bwyta ac sy'n cael eu rhyddhau o'r gwasanaethau arbenigol

O dro i dro, bydd y gwasanaethau arbenigol yn rhyddhau pobl sy'n dal i ddiodef o anhwylder bwyta gan eu bod yn annhebygol o elwa ar unrhyw driniaeth neu gymorth pellach. Efallai y bydd y claf yn annhebygol o elwa ar driniaeth neu gymorth o'r fath gan ei fod yn y Cam Cyn-fyfyrio neu'r Cam Myfyrio, neu efallai ei fod wedi ymddieithrio oddi wrth y gwasanaethau arbenigol. Yn ddelfrydol, bydd y gwasanaeth arbenigol yn trafod y bwriad i ryddhau'r claf gyda chi ymlaen llaw. Os yw'r claf yn fodlon eich cyfarfod o dro i dro, gallech fod â rôl bwysig o ran:

- a) Cynghori'r claf a'i deulu ynghylch materion meddygol
- b) Trafod gyda'r claf a oes yna unrhyw newid yn ei allu/parodrwydd i ymgysylltu â'r gwasanaethau arbenigol a'r triniaethau sydd ar gael iddo
- c) Sicrhau bod y claf a'i deulu yn cael gwybodaeth am yr adnoddau sydd ar gael



Lluniwyd y canllawiau hyn o fewn GIG Cymru ar y cyd rhwng y Rhwydwaith Iechyd Meddwl, clinigwyr ar draws Byrddau Iechyd Cymru a rhai gyda profiad bywyd ac aelodau o'u teuluoedd.



## Atodiad: Gwybodaeth ac Adnoddau'n Ymwneud ag Anhwylderau Bwyta ar Gyfer Cleifion, Cefnogwyr / Teuluoedd a Gweithwyr Proffesiynol

**Os ydych wedi cael yr wybodaeth hon gan eich meddyg teulu**, yna mae eich meddyg teulu o'r farn y gallech chi, neu rywun sy'n agos atoch chi, fod yn dioddef o anhwylder bwyta. Bydd yr wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall beth yn union yw anhwylderau bwyta, sut maent yn effeithio ar fywydau pobl, a'r hyn y gallwch ei wneud.

**Os yw eich meddyg teulu wedi atgyfeirio eich achos at y gwasanaeth arbenigol i'w asesu**, bydd yr wybodaeth hon yn dweud wrthy ch beth yn union y gallwch ei wneud yn awr wrth aros am yr asesiad. Gall y driniaeth ddechrau'n syth gyda'r camau a gymerwch o heddiw ymlaen, a'r peth gorau i'w wneud yw rhoi'r broses hon ar waith yn syth er mwyn ichi gael canlyniad da. Byddwch yn ymwybodol fod rhestrau aros o wythnosau neu fisoedd ar gyfer rhai gwasanaethau. Bydd rhai gwasanaethau'n gweld pobl yn fuan ar ôl yr atgyfeiriad er mwyn eu hasesu; yna, os cânt eu derbyn ar y gwasanaeth, byddant yn cael eu rhoi ar restr aros cyn dechrau ar y driniaeth. Bydd gwasanaethau eraill yn rhoi pobl ar restr aros cyn iddynt gael eu hasesu; ond os cânt eu derbyn ar y gwasanaeth, byddant yn dechrau ar y driniaeth yn syth ar ôl i'r asesiad gael ei gwblhau.

**Os byddwch yn mynychu asesiad**, gallwch baratoi ar gyfer yr apwyntiad trwy wneud y canlynol:

- a) Cadw rhestr ddyddiol o beth yn union (a faint) rydych chi neu eich anwylyd yn ei fwyta a'i yfed, a mynd â'r rhestr gyda chi i'r apwyntiad
- b) Gwneud rhestr o'r bwydydd rydych chi neu eich anwylyd yn teimlo'n gyfforddus yn eu bwyta, yn ogystal â rhestr o'r bwydydd rydych chi neu eich anwylyd yn eu hosgoi, a mynd â'r rhain gyda chi i'r apwyntiad

**Gallwch fynd â rhywun cefnogol gyda chi i'r apwyntiad.** Efallai y bydd y gweithiwr proffesiynol yn gofyn am gael eich gweld ar eich pen eich hun am ran o'r apwyntiad. Rydym yn annog eich cefnogwr i ailymuno â chi wrth drafod beth fydd y camau nesaf. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r gwasanaeth ymlaen llaw – bydd y staff yn fwy na pharod i ateb eich cwestiynau. Efallai y bydd y sawl a fydd yn eich gweld angen eich pwysu yn ystod yr apwyntiad. Efallai hefyd y bydd angen eich gweld am yr eilwaith i barhau â'r broses asesu. Ceisiwch rannu cymaint o wybodaeth â phosibl er mwyn i'r gwasanaeth ddeall yn llwyr beth ddvch yn mynd trwyddo a sut fath o gymorth a thriniaeth fydd yn fwyaf defnyddiol.



# LLYFRAU

## **“Rehabilitate, Rewire, Recover” gan Tabitha Farrar**

### **(ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ag anorecsia)**

Adferiad maethol i iacháu'r corff ac ailweirio niwral i newid y llwybrau niwral sy'n gysylltiedig â chyfyngu ar fwyta, gorfodaeth i wneud ymarfer corff, a meddyliau ac ymddygiadau a gaiff eu cynhyrchu yn yr ymennydd yn sgil anorecsia. Gan ddefnyddio profiad sydd wedi deillio o'i hadferiad hi ei hun, yn ogystal â hanesion gan oedolion mae hi wedi gweithio gyda nhw fel hyfforddwr adfer, mae Tabitha Farrar yn eich tywys trwy'r broses o adeiladu eich adferiad personol eich hun. Yn ogystal â chyflwyno syniadau a chysyniadau anhraddodiadol, mae'r llyfr hwn yn cynnig “pecyn cymorth” a all helpu gyda'r ailweirio niwral, ynghyd â syniadau seiliedig ar gamau i'ch helpu i fwyta'n ddigfyngiad.

## **“Overcoming Binge Eating” gan Chris Fairburn**

### **(ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion â bwlimia neu anhwylder gorfwyta mewn pyliau)**

Mae'r llyfr hynod lwyddiannus hwn yn cynnig gwybodaeth yn ymwneud â sut i ddeall gorfwyta mewn pyliau a sut i ddod ag ef o dan reolaeth, pa un a ydych yn gweithio gyda therapydd neu ar eich pen eich hun. Ceir canllawiau clir, gam wrth gam, sy'n dangos ichi sut i wneud y canlynol:

Goresgyn y cymhelliad i orfwyta mewn pyliau

Rheoli'r hyn rydych yn ei fwyta a phryd rydych yn bwyta

Rhoi'r gorau i ddilyn deiet caeth ac arferion eraill a all gyfrannu at orfwyta mewn pyliau

Sefydlu patrymau bwyta sefydlog, iach

Gwella delwedd eich corff a lleihau'r risg o ddiodef pwl arall

## **“Help Your Teenager Beat an Eating Disorder”**

### **gan James Lock and Daniel le Grange**

### **(ar gyfer teuluoedd pobl ifanc yn eu harddegau ag anorecsia neu fwlimia)**

Os oes gennych blentyn yn ei ardegau sy'n dangos arwyddion ei fod yn dioddef o anhwylder bwyta, efallai y byddwch yn gobeithio y bydd, gyda'r gymysgedd iawn o gariad, anogaeth ac awdurdod rhieni, yn “dod at ei goed”. O na bai pethau mor syml â hynny. Mae'r llyfr hwn yn cyflwyno tystiolaeth i ddangos bod eich cyfraniad chi fel rhiant yn hollbwysig. Yn wir, efallai mai dyma fydd yr allwedd ar gyfer goresgyn salwch eich plentyn. Mae hefyd yn cynnig yr offer y byddwch eu hangen i sefyll ynghyd fel teulu i frwydro yn erbyn y salwch, er mwyn sicrhau y bydd eich plentyn yn datblygu arferion bwyta maethlon ac yn meithrin agweddau a fydd yn cynnal ei fywyd, o ddydd i ddydd, o bryd i bryd. Mae angen cryn dipyn o amser i adfer yn llwyr, ac mae ail byliau o salwch yn gyffredin. Ond pa un a yw eich plentyn yn cael triniaeth eisoes, neu os ydych yn dechrau amau bod rhywbeth o'i le, bydd y llyfr hwn yn cynnig arweiniad ichi ar y camau i'w cymryd.

## **“Skills-based Caring for a Loved One With an Eating Disorders: The New Maudsley” gan Janet Treasure & Gráinne Smith**

### **(ar gyfer teuluoedd oedolion ag anorecsia neu fwlímia)**

Mae'r llyfr hwn yn cynnig y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen ar ofalwyr i gefnogi pobl sy'n dioddef o anhwylder bwyta, a'u helpu i dorri'n rhydd o'r hualau sy'n eu rhwystro rhag adfer. Trwy gyfrwng dull cydgysylltiedig, mae'n cynnig technegau a strategaethau manwl sy'n anelu at wella gallu gweithwyr proffesiynol a gofalwyr i adeiladu cymorth parhaus ar gyfer eu hanwyliaid. Gan ddefnyddio profiad personol ac ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, mae'r awduron yn cynghori'r darlennydd ynghylch nifer o feysydd anodd yn ymwneud â gofalu am rywun sy'n dioddef o anhwylder bwyta. Mae'r argraffiad newydd a diweddar hwn yn ddeunydd darllen hanfodol i weithwyr proffesiynol a theuluoedd sy'n gysylltiedig â rhoi gofal a chymorth i bobl ag anhwylder bwyta.

## **“Food Refusal and Avoidant Eating in Children, Including Those With Autism Spectrum Conditions: A Practical Guide for Parents and Professionals” gan Gillian Harris & Elizabeth Shea**

### **(ar gyfer teuluoedd plant ag awtistiaeth ac ARFID)**

Mae nifer o blant a chanddynt Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth yn cyfyngu'n arw ar eu deiet, ac mae'r llyfr hwn yn cynnig cyngor a hyfforddiant i rieni ynglŷn â sut i ddelio â'r cyflwr ac arwain at ddeiet iachach a mwy cytbwys. Mae'r cyflwr a elwir bellach yn Anhwylder osgoi bwyta/cyfyngu ar faint rydych chi'n ei fwyta (ARFID) yn deillio o orsensitifrwydd synhwyrdd, a gall effeithio ar iechyd y plentyn, ar y teulu, a hefyd ar integreiddio cymdeithasol.

Ar sail pecynnau hyfforddi llwyddiannus y mae'r awduron yn eu darparu ar gyfer rhieni a gweithwyr proffesiynol, mae'r llyfr hwn yn galluogi'r darlennydd i ddeall y cyflwr a gweithio gydag ef, gan gynyddu'n raddol yr ystod o fwydydd y gall y plentyn eu bwyta. Mae'n cynnwys astudiaethau achos, pwyntiau diddorol a phwyntiau gweithredu – rhywbeth sy'n ei wneud yn ddeunydd darllen hygyrch a dyfeisgar.

## **“Anorexia and Other Eating Disorders: How to Help Your Child Eat Well and Be Well” gan Eva Musby**

### **(ar gyfer teuluoedd plant ag awtistiaeth ac anorecsia a bwlimia)**

Gyda thoreth o enghreifftiau ac awgrymiadau ymarferol sydd wedi helpu degau ar filoedd o rieni diolchgar, bydd y llyfr hwn yn eich tywys trwy bob cam o siwrnai adfer eich mab neu eich merch. Mae'n cynnig cysur a hyder, gan fynd ati yr un pryd i ymdrin â'r cwestiynau gwirioneddol y mae rhieni'n ymlafnio â nhw.

Caiff y strategaethau ymarferol ac emosiynol a gynhwysir ym mhob pennod eu seilio ar wybodaeth gyfredol sydd wedi deillio o waith ymchwil cyhoeddedig, teuluoedd a therapyddion ledled y byd. Ar sail ei phrofiad bywyd hi ei hun a channoedd o rieni sydd wedi cael eu hyfforddi ganddi, nod Eva Musby yw grymuso teuluoedd i weithredu'n effeithiol ar unwaith, o'r pryd bywyd llwyddiannus cyntaf yr holl ffordd at adferiad.



# GWEFANNAU

**F.E.A.S.T.** <https://www.feast-ed.org>

Cymuned fyd-eang sy'n cynnig cymorth ac addysg i rieni plant ag anhwylderau bwyta. Mae 'Y 30 Diwrnod Cyntaf' yn rhaglen arbennig o werthfawr, gan anelu at drawsnewid rhieni a'u troi'n ofalwyr grymus o fewn 30 diwrnod. Byddwch yn cael 30 o e-byst dros gyfnod o 30 diwrnod gydag oddeutu 30 munud y dydd o ddeunyddiau dysgu. Yn ychwanegol at y deunyddiau darllen, byddwch yn cael dolenni'n arwain at fideo a chynnwys sain gan F.E.A.S.T. a ffynonellau dibynadwy eraill.

**Beat website** <https://www.beateatingdisorders.org.uk>

Pwrpas **llinell gymorth genedlaethol** Beat yw annog a grymuso pobl i gael help yn ddi-oed. Gall pobl gysylltu â Beat ar-lein neu ar y ffôn 365 diwrnod y flwyddyn. Maent yn gwrando ar y bobl sy'n cysylltu â nhw, yn eu helpu i ddeall y salwch, ac yn eu cynorthwyo i gymryd camau cadarnhaol tuag at adfer. Maent hefyd yn cefnogi teuluoedd a chyfeillion, gan roi iddynt sgiliau a chymorth hanfodol er mwyn iddynt allu helpu eu hanwyliaid i adfer a gofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain yr un pryd. Yn arbennig, mae'r dudalen hon ar wefan Beat yn cynnig gwybodaeth a chyngor i feddygon teulu, pobl ag anhwylderau bwyta a'u teuluoedd/cefnogwyr ynglŷn â'r broses o gynnal apwyntiad cychwynol gyda meddyg teulu a gwneud atgyfeiriad:

<https://beat.contentfiles.net/media/documents/gp-leaflet-website.pdf>

**ARFID Awareness UK** <https://www.arfidawarenessuk.org>

Dyma'r unig elusen gofrestredig yn y DU sy'n mynd ati i godi ymwybyddiaeth o Anhwylder osgoi bwyta/cyfyngu ar faint rydych chi'n ei fwyta a hyrwyddo gwybodaeth am y cyflwr. Fel sefydliad nid-er-elw, mae'r elusen hon yn darparu cymorth, ymchwil a gwybodaeth berthnasol i unigolion, rhieni, gofalwyr a gweithwyr meddygol proffesiynol.

**MaleVoiceED** <https://www.malevoiced.com>

Mae'r elusen hon yn cydnabod ac yn rhoi gwerth ar brofiadau bywyd dynion sydd wedi/yn mynd trwy anawsterau'n ymwneud â bwyta ac ymarfer corff, ynghyd â chyflyrau cysylltiedig. Nod MaleVoiceED yw codi ymwybyddiaeth o'r materion hyn ymhlith dynion, ynghyd â chynorthwyo dynion sy'n dioddef o anhwylderau bwyta, arferion bwyta di-drefn a chyflyrau cydafiach. Mae'n galluogi grwpiau cefnogaeth gan gyfoedion i annog adferiad, a hefyd mae'n cyflwyno portffolio hyfforddiant.

**Eva Musby: Helping You Free Your Child of an Eating Disorder**

<https://www.anorexiafamily.com>

Help ar gyfer rhieni plant a phobl ifanc yn eu harddegau sy'n dioddef o anorecsia ac anhwylderau bwyta eraill.

**NICE Guidance** <https://www.nice.org.uk/guidance/ng69>

Mae'r canllawiau hyn gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) yn ymdrin ag asesu, triniaethau, monitro, a gofal cleifion mewnol ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion ag anhwylderau bwyta. Y nod yw gwella'r gofal a roddir i bobl trwy nodi'r triniaethau mwyaf effeithiol ar gyfer anorecsia nerfosa, anhwylder gorfwyta mewn pyliau a bwlimia nerfosa.

## APIAU DEFNYDDIOL RHAD AC AM DDIM



### Recovery Record

Mae'r ap hwn yn eich galluogi i gofnodi eich prydau a'ch byrbrydau, yn ogystal â'ch meddyliau, eich teimladau a'ch cymelliadau drwy'r dydd. Mae'n cynnwys amrywiaeth o nodweddion.



### Rise Up + Recover

Mae'r ap hwn yn eich helpu i gofnodi eich prydau bwyd a'ch teimladau.



### Mindshift CBT

Mae'r ap hwn wedi'i lunio'n benodol er mwyn helpu pobl ifanc yn eu harddegau ac oedolion ifanc i ddelio â gorbryder mewn ffordd iach.



### CBT Thought Diary

Dyddiadur yw'r ap hwn, ac mae'n defnyddio dulliau effeithiol sy'n seiliedig ar Therapi Gwybyddol Ymddygiadol i'ch helpu i herio eich meddyliau er mwyn gwella eich hapusrwydd.



### What's Up? – A Mental Health App

Mae'r ap hwn yn cyfuno dulliau sy'n seiliedig ar Therapi Gwybyddol Ymddygiadol a Therapi Derbyn ac Ymrwymo i ddelio ag iselder, dicter, straen a gorbryder. Mae'n helpu i adnabod patrymau meddwl negyddol, rhoi problemau mewn persbectif a sgorio teimladau dyddiol.



### The Mindfulness App

Mae'n eich helpu i fod yn fwy 'presennol' yn eich bywyd. Mae ymwybyddiaeth ofalgar yn eich helpu i ganolbwyntio eich sylw ar y funud honno.



### Stop, Breathe, and Think

Ap myfyrio lle ceir gwybodaeth am y gwahanol fathau o fyfyrio ac ymwybyddiaeth ofalgar sydd ar gael, a'r manteision sy'n perthyn iddynt.



### Headspace

Ap myfyrio syml sy'n helpu pobl i deimlo llai o straen, canolbwyntio mwy a chysgu'n well.



### MyCare

Gwybodaeth a chymorth i ofalwyr er mwyn iddynt allu gweithio tuag at eu hadferiad a'u llesiant eu hunain.